| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Cymunedau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **8 Medi 2016** |
| **Aelod Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol Cwsmeriaid a Llyfrgelloedd** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Cydlynydd Ymchwil a Deallusrwydd Corfforaethol** |
| **Teitl:** | **Arolwg Preswylwyr** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Adroddiad yw hwn am gasgliadau Arolwg Preswylwyr 2015 a'r dulliau ddefnyddiwyd i gynnal yr arolwg.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae'r adroddiad yn hysbysu Aelodau'r Pwyllgor Archwilio o gasgliadau'r arolwg preswylwyr, gwybodaeth gefndir ychwanegol a chamau sydd eisoes wedi eu cymryd gan wasanaethau i ymateb i brif gasgliadau'r arolwg.

Mae hwn yn gyfle i Aelodau'r Pwyllgor Archwilio i roi sylwadau ar ganlyniadau'r arolwg, datblygiadau yn dilyn hynny a'n cynlluniau am arolwg mwy cynhwysfawr yn 2017.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod Aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn rhoi unrhyw sylwadau sydd ganddynt ar ganlyniadau'r arolwg, datblygiadau yn dilyn hynny a'n cynlluniau am arolwg mwy cynhwysfawr yn 2017.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Y prif bwyntiau i'w hystyried yw:

4.1 Er mwyn lleihau'r costau yn sylweddol casglwyd arolwg 2015 yn gwbl electronig ac eithrio cyfraniad rhai ysgolion.

4.2 1000 o ymatebion oedd y sampl gynlluniwyd ar gyfer arolwg 2015, oedd yn nifer is na'r 3000 rydym wedi anelu ato mewn arolygon blaenorol. Tua 711 oedd nifer terfynol yr ymatebion, sy'n is na'r sampl fwriadwyd. O ganlyniad mae gennym rai pryderon ynglŷn a pha mor gynrychioliadol oedd yr ymatebion o'i gymharu ag arolygon blaenorol. Bydd arolwg mwy cynhwysfawr yn digwydd yn 2017.

4.3 Er hyn, mae adrannau'r cyngor wedi ystyried y prif negeseuon o'r arolwg yn ogystal â thystiolaeth arall ac maent wedi cyflwyno gwelliannau, lle roedd hynny'n briodol, yn enwedig ym maes gofal cwsmer a chyfathrebu.

5. **Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae’r data ar gyfer amryw o Ddangosyddion y Cynllun Corfforaethol yn cael ei gasglu drwy’r arolwg. Yn fwy na hynny gall gwybodaeth o’r arolygon dros y blynyddoedd hysbysu trafodaeth o gylch y blaenoriaethau newydd yn y dyfodol.

6. **Beth fydd y gost a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae’r adroddiad yn ymwneud â darn o waith sydd wedi ei gwblhau a does dim goblygiadau pellach o ran cost.

7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai’r templed o’r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gwblhau fod wedi ei atodi i'r adroddiad**

Cafodd dull yr arolwg ei asesu o ran effaith ar gydraddoldeb. Y prif gasgliadau oedd fod arolygon blaenorol wedi methu darparu samplau dilys yn ystadegol i groes baru o ran cydraddoldeb ar gyfer y rhan fwyaf o nodweddion a ddiogelir. Yr eithriadau oedd oed, rhyw, anabledd a statws gofalu. O ganlyniad ni ofynnwyd cwestiynau yn ymwneud â nodweddion eraill a ddiogelir yn arolwg 2015. Yn hytrach anfonwyd ebost ar wahân i’r holl grwpiau cymunedol a chynrychioliadol ar restr ebost Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus Gogledd Cymru.

8. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda’r Pwyllgor Archwilio ac eraill?**

Cyn dechrau’r arolwg cafodd papur yn amlinellu amrywiaeth o opsiynau ar gyfer y dull o gynnal yr arolwg ei ystyried gan y Tîm Gweithredol Corfforaethol.

Ers i ganlyniadau’r arolwg fod ar gael, mae’r adroddiad wedi ei ystyried gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a chafodd ei gyflwyno i Gyfarfod Briffio’r Cabinet.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Dim angen

10. **Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn wneud i'w lleihau?**

Rydym wedi amlinellu yn yr adroddiad sydd wedi ei atodi nad aeth yr arolwg cystal ag yr obeithiwyd. Mae risg wedyn na fyddai canlyniadau’r arolwg yn cael eu derbyn yn dda gan y cyhoedd. Er mwyn lliniaru hyn rydym yn yr adroddiad sydd wedi ei atodi yn egluro’r camau rydym yn eu cymryd i ymateb i’r materion sy’n cael eu codi. Hefyd rydym wedi egluro y bydd arolwg mwy cynhwysfawr yn digwydd yn 2017. Mae’r adroddiad yn nodi:

‘Er bod maint y sampl a dosbarthiad yr ymatebion wedi codi rhai cwestiynau am ddilysrwydd yr adroddiad, mae’r Cyngor wedi derbyn ei brif negeseuon fel un dangosydd o sut mae ein preswylwyr yn teimlo am Sir Ddinbych fel lle a’r Cyngor. Yn ogystal â’r gwelliant penodol i gwsmeriaid, cyfathrebu a gwasanaethau marchnata, mae pob gwasanaeth arall o fewn y Cyngor yn ystyried y negeseuon hyn, yn ogystal

â gwybodaeth gan ffynonellau eraill, wrth iddynt ddatblygu eu cynlluniau gwasanaeth newydd. Mae'r Cyngor hefyd yn codi'r materion hyn ar gyfer trafodaeth bellach ac eglurder yn 'sgyrsiau'r sir'. Bydd y canlyniad yn helpu i benderfynu'r prif flaenoriaethau ar gyfer y cyngor a'i bartneriaid dros y blynyddoedd nesaf.'

## 11. Pŵer i wneud Penderfyniad

Does dim gofynion cyfreithiol penodol ar y mater gweithredol hwn.

Mae pwerau'r Pwyllgor Archwilio o ran datblygu polisi yn cael ei amlinellu yn Adran 7.4.1 o Gyfansoddiad y Cyngor.

**Swyddog Cyswllt:**
Cydlynydd Ymchwil a Deallusrwydd Corfforaethol
Ffôn: 01824 708045